



ADRODDIAD I:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	18 Medi 2013
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Adolygu Polisiâu Casglu o Ddrws i Ddrws a Chasglu ar y Stryd.

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno canlyniadau'r ymarfer ymgynghori i'r Pwyllgor eu hystyried o ran polisi diwygiedig arfaethedig ar gyfer dyrannu a monitro Trwyddedau Casglu ar y Stryd a Chasglu o Ddrws i Ddrws.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Roedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gytunwyd gan Aelodau ar 14 Mawrth 2012 yn nodi'r gofyniad am adolygiad o'r polisiâu presennol o ran Casglu o Ddrws i Ddrws a Chasglu ar y Stryd.

2.2 O ganlyniad i'r adolygiad, mae polisiâu diwygiedig wedi'u drafftio a chytunodd Aelodau mewn cyfarfod ar 12 Medi 2012 y byddai Swyddogion yn ymgynghori â Swyddogion Cyfreithiol a phobl eraill â diddordeb ar y polisiâu diwygiedig, e.e., y Comisiwn Elusennau, Elusennau Cenedlaethol ac unrhyw Elusen sydd wedi cynnal Casgliad ar y Stryd neu Gasgliad o Ddrws i Ddrws yn y Sir o fewn y 12 mis diwethaf.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Casglu o Ddrws i Ddrws 1939 a Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd ac ati. (Darpariaethau Amrywiol) 1916.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Cynhaliwyd proses ymgynghori 6 wythnos gyda phob sefydliad ac elusennau cenedlaethol a oedd wedi casglu yn y Sir dros y 12 mis diwethaf. Anfonwyd y polisiâu arfaethedig at bob Cyngor Tref a Chymuned yn y Sir hefyd ynghyd â'r Comisiwn Elusennau. Mae copïau o'r Polisiâu arfaethedig Casglu o Ddrws i Ddrws a Chasglu ar y Stryd yn

Atodiad A.

- 4.2 O ganlyniad i'r ymgynghoriad, mae Swyddogion wedi cael cyflwyniadau neu sylwadau o ran y polisi Casglu ar y Stryd a gellir eu gweld yn Atodiad B sydd ynghlwm.
- 4.3 Mae tabl sy'n crynhoi'r sylwadau hyn, ynghyd â diwygiadau a argymhellir i'r polisi Casglu ar y Stryd, ar gael yn Atodiad C.
- 4.3 Er gwybodaeth i Aelodau, ni chafwyd unrhyw sylwadau sy'n gysylltiedig â'r Polisi Casglu o Ddrws i Ddrws.
- 4.4 Wrth ystyried y mater hwn, mae'n bosibl y bydd Aelodau am gael eu hatgoffa bod angen polisi clir yn y maes hwn i gynorthwyo swyddogion i wneud penderfyniadau o ran Casglu ar y Stryd a Chasglu o Ddrws i Ddrws. Mae'r polisïau arfaethedig yn ymwneud ag ymdrin yn deg ag elusennau parchus/sefydliadau casglu sydd wedi gwneud ceisiadau dilys i gasglu yn ein hardal.

5. **ARGYMHELLIAD**

- 5.1 Bod Aelodau yn ailedrych ar y polisi drafft ar gyfer Casglu ar y Stryd a Chasglu o Ddrws i Ddrws, gan ystyried y sylwadau a gafwyd (fel a nodir yn Atodiad C), a phe baent am dderbyn y diwygiadau arfaethedig, awdurdodi Swyddogion i gyflwyno'r polisïau i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo a'u mabwysiadau.